

HELPU CHI I FYNEGI EICH HUN

Yn Gofal Canser Tenovus rydym eisiau sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan ganser yn cael y driniaeth a'r gofal gorau posibl.

Rydym am sicrhau bod pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fynegi eu barn, a sefyll dros eu hawliau, mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn.

Ac os na fydd pethau'n mynd fel y cynlluniwyd, gall pobl ddilyn llwybr clir ar gyfer cymorth eiriolaeth.

Am ragor o wybodaeth am eiriolaeth, a'n holl wasanaethau cymorth, ffoniwch ni neu ewch i'n gwefan.

Ffoniwch ein Llinell Gymorth rhadffôn

0808 808 1010

Call our free Support Line

tenovuscancercare.org.uk/support

tenovus
cancer care
gofal canser

BETH YW EIRIOLAETH?

- Mae **eiriolaeth** yn golygu cael cymorth gan berson arall i helpu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, i fynegi eich barn a'ch dymuniadau.
- **Eiriolwr** yw rhywun sy'n helpu i ddarparu'r cymorth yma ar ran person arall.

SUT GALLWN HELPU

- **Hunan-eiriolaeth** – lle mae'n briodol rydym yn annog pobl i leisio eu barn a dymuniadau eu hunain a sefyll dros eu hawliau.

Mae gennym ni gyngor ac adnoddau i rymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus.



- **Eiriolaeth Annibynnol** – weithiau gall pobl wynebu anawsterau wrth ddeall neu fynegi eu hanghenion eu hunain ac efallai y bydd angen llais annibynnol arnynt i siarad ar eu rhan.

Rydym yn cyfeirio ac yn atgyfeirio at ddarparwyr eraill lle mae'n briodol.



- **Eiriolaeth Statudol** – lle mae hawl gyfreithiol i berson gael eiriolwr.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llais i ddarparu cymorth gyda chwynion Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gallwn gyfeirio at asiantaethau statudol eraill ar gyfer amrywiaeth o faterion penodol.



Am ragor o gymorth ac i gael mynediad at ein hadnoddau, sganiwch y cod QR, neu ewch i'n gwefan **tenovuscancercare.org.uk/advocacy** neu anfonwch ebost at **advocacy@tenovuscancercare.org.uk**

Estyn gobaith. Estyn llaw

Rhif Elusen Gofrestredig 1054015

tenovus cancer care
gofal canser